

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	30 MEHEFIN 2022
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2021/2022
PWRPAS YR ADRODDIAD	MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD

1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol (2019) yn datgan:

"Mae pob sefydliad llywodraeth leol yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol drwy roi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol sydd yn ofynnol yn y Safonau yn gwybyddu'r datganiad llywodraethu, ac yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2021/2022 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

3. EFFAITH COVID-19

- 3.1 Drwy gydol 2021-22, fel y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor, 'roedd swyddogion Archwilio Mewnol yn gweithio o gartref. Nid oedd yn bosibl cynnal archwiliad lle byddai angen ymweliad â'r sefydliad oherwydd canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau a osodwyd.
- 3.2 Mae dyfodiad pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr awdurdod yn ei gyfanrwydd ac yn wir ar waith Archwilio Mewnol. Blaenoriaethwyd gwasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod y gwasanaethau â blaenoriaeth uchel yn cael eu darparu. Nid oedd Archwilio Mewnol yn syrthio i'r categori hwn. Nid oedd modd i Archwilio Mewnol gynnal ei waith yn llawn yn ystod 2021-22, ac i'r perwyl hynny bu i adnoddau Archwilio Mewnol gael eu arall-gyfeirio i gynorthwyo gwasanaethau prif flaenoriaeth.
- 3.3 Bu i swyddogion Archwilio Mewnol gynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu, sef gwasanaeth a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad o arwain Cymru allan o'r pandemig drwy wella arolygiaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl i hunan-ynysu lle bo angen. Bu i 98.57 diwrnod gael eu treulio yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu.
- 3.4 Ymhellach i hynny, ar gais y Pennaeth Cyllid, bu swyddogion Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-daliadau i ddelio gyda prosesu Taliadau Cymorth Hunan-ynysu yn sgil y cynnydd yn nifer yr achosion yng Ngwynedd ddiwedd 2021 a dechrau 2022. Treuliwyd cyfanswm o 96.77 diwrnod ar y gwaith hwn.
- 3.5 Cyflwynwyd rhaglen waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2021/2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Mai 2021. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn llawer mwy hyblyg na'r arfer yn 2021/2022 i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiau.
- 3.6 Adnabuwyd blaenoriaethau archwilio newydd mewn ymateb i risgiau newydd a newidiadau yn sgil effaith Covid-19. Bu i'r archwiliadau o'r cynllun gael eu cwblhau o fewn cyfnod heriol gyda ffocws yr archwiliadau ar drefniadau yn sgil y pandemig ac archwiliadau statudol megis grantiau.

4. SICRWYDD CYFFREDINOL

4.1 Mae barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar dair agwedd o drefniadau'r Awdurdod:

- Llywodraethu
- Rheoli Risg
- Rheolaeth Fewnol

4.2 Mae canlyniadau'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill, yn cefnogi'r farn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

4.3 Ystyriaethau

Yn arferol, byddai fy marn flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o ystod archwiliadau a gynhaliwyd ar draws y Cyngor. Mae'r gwerth a ddarperir gan Archwilio Mewnol yn y gwaith manwl a wneir a'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i reolwyr gwasanaethau ar reolaethau mewnol, prosesau a gweithdrefnau, ac yn eu asesiad o'r camau gweithredu i liniaru risgiau cynhenid i lefel dderbyniol. Wrth lunio fy marn, rhoddwyd ystyriaeth i'r nifer cyfyngedig o archwiliadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2021/2022 ynghyd ag adlewyrchiad o fy mhrofiad o fewn fy rôl yn Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd blaenorol a fy marn am safon a gweithrediad y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Rheoli ac Uwch Reolwyr. Yn yr amgylchiadau digynsail o anghyffredin, fel eithriad eto eleni, i gefnogi fy marn gyffredinol, rwyf wedi defnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi fy marn am y flwyddyn.

Er mwyn rhoi fy marn flynyddol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 15 Gorffennaf 2021 i ddiweddarau am ddatblygiadau yn y maes rheoli risg, y camau gweithredu nesaf i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg. Mae Cofrestr Risg Brexit yn cael ei chynnal ar wahân.
- Mae'r 23 risg llywodraethu sydd wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 27 Mai 2021) yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

- Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2021/2022:
 - Aseiad a Gynaliadwyedd Ariannol – Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym Medi 2021. Mae'r adroddiad yn datgan **“Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd”**.
 - Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2021 – Archwilydd Cyffredinol. Mynegir yn yr adroddiad **“Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 19 Hydref 2021”**. Mewn perthynas â Gwelliant Parhaus mynegir yn yr adroddiad bod **“y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel yr arbedwyd trwy orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021”**.
 - O safbwynt cynllunio adferiad, mynega Archwilio Cymru eu bod **“wedi gweld datblygiad Dangosfwrdd Ymateb Brys Coronafeirws mewn cyfnod cymharol fyr gydag adnoddau cyfyngedig i ddal gwybodaeth allweddol am breswylwyr a risgiau corfforaethol”**.
 - Archwiliad Sicrwydd 2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd – Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd eu harchwiliad yn cwmpasu ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, a Llesiant. Nodir yn yr adroddiad fod y canfyddiadau'n gadarnhaol.

4.4 **Barn Flynyddol**

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2021/2022, yn fy marn i, mae fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/2022 yn gweithredu ar lefel a rydd sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae hyn yn seiliedig ar y lefel is o archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

5. **GWAITH ARCHWILIO** **Cynllun Archwilio**

- 5.1 Roedd 42 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2021/2022. Cafodd 30 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022, sy'n cynrychioli **71.43%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.
- 5.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2021/2022 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

- 5.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnlol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnlol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGÔR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 5.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnlol mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewnlol i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewnlol, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewnlol yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 5.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnlol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.
- 5.6 O'r 30 aseiniad yng nghynllun archwilio 2021/2022 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	14
Digonol	4
Cyfyngedig	5
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	7
Cyfanswm	30

- 5.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2021/2022 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 78.26% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel".
- 5.8 Derbyniodd 5 archwiliad lefel "Cyfyngedig" ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".

- 5.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.
- 5.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2021/2022. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol	Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
1 Ebrill 2021 – 30 Medi 2021	14 Hydref 2021
1 Hydref 2021 – 31 Ionawr 2022	10 Chwefror 2022
1 Chwefror 2022 – 31 Mawrth 2022	30 Mehefin 2022

Addasiadau i'r Cynllun

- 5.11 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

Gwaith Dilyniant

- 5.12 O ganlyniad i'r pandemig, a'r tebygolrwydd cryf bod newidiadau i weithdrefnau a threfniadau, ni wnaed unrhyw waith dilynol yn ystod 2021/2022.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

- 5.13 Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa. O ganlyniad i'r pandemig, ni fu modd trefnu Gweithgor.

6. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

Staffio a Chymwysterau

- 6.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg, sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio cymhwyster CIPFA llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA. Mae tri Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA ar hyn o bryd.

- 6.2 Ers 1 Ebrill 2022, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro i gyfro secondiad Uwch Archwiliwr.

Y defnydd a wneir o adnoddau staff

- 6.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos cynnydd yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **557** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 i **783** diwrnod am yr un cyfnod yn 2021/2022, cynnydd o **226** diwrnod. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad Uwch Archwiliwr ddychwelyd o secondiad am hanner olaf y flwyddyn, dim absenoldeb mamolaeth a gostyngiad mewn absenoldeb salwch.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 25 diwrnod o gymharu â 11 o ddiwrnodau yn 2020/2021.

7. PERFFORMIAD ARCHWILIO





- 7.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2021/2022 fel a ganlyn:

Disgrifiad Mesurydd	Perfformiad 2020/21	Uchelgais 2021/22	Canlyniadau 2021/22
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	82.61%	95%	71.43%
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	100%	80%	78.26%
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol).	Gweler Nodyn 1	85%	Gweler Nodyn 1
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	Gweler Nodyn 1	100%	Gweler Nodyn 1
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	Gweler Nodyn 1	85%	Gweler Nodyn 1

Nodyn 1 – ni gynhaliwyd archwiliadau dilynol yn ystod 2020/21 a 2021/22.

8. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2022/2023

- 8.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol 2022/2023 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022.
- 8.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/2023 yw:

Mesur	Uchelgais 2022/2023	Cyfeiriad Uchelgais
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	95%	
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	80%	
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	100%	
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	85%	

9. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

- 9.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.
- 9.2 Argymhellir bod cyrff y sector gyhoeddus yn adolygu eu gweithdrefnau archwilio yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd canlyniadau'r hunanasesiad yn erbyn y safonau a'r Nodyn diwygiedig i Lywodraeth Leol (2019) yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2022/2023.

10. ARGYMHELLIAD

- 10.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2021/2022.



Cynllun Archwilio Mewnol 2021/2022

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
CORFFORAETHOL		
Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Dim Categori	
Datganiadau Cyflogaeth	Cyfyngedig	10 Chwefror 2022
Gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu	Dim Categori	
Brexit	Digonol	30 Mehefin 2022
Côd Rheoli Ariannol	Uchel	30 Mehefin 2022
Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol 2021	Dim Categori	10 Chwefror 2022
Dynodiadau Iaith	Digonol	30 Mehefin 2022
Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	Dim Categori	
Defnydd o Gardiau Pryniant	Cyfyngedig	30 Mehefin 2022
ADDYSG		
Adnoddau		
Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion	Uchel	10 Chwefror 2022
Grant Addysg Ôl-16	Dim Categori	10 Chwefror 2022
Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae	Cyfyngedig	10 Chwefror 2022
Ysgolion		
Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	Cyfyngedig	30 Mehefin 2022
Ysgolion Cyffredinol	Dim Categori	
CYLLID		
Ar draws yr adran		
Systemau a Diogelwch TG - Data Adequacy	Uchel	14 Hydref 2021
Cyfrifeg		
Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2020-2021	Uchel	14 Hydref 2021
Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2020-2021	Uchel	14 Hydref 2021
Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2020-2021	Uchel	14 Hydref 2021
Pensiynau a Chyflogau		
Newid Data Sefydlog	Uchel	30 Mehefin 2022
Taliadau i Weithwyr Gofal (Rhan 2)	Uchel	14 Hydref 2021
Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal	Digonol	30 Mehefin 2022
Taleion Newydd	Uchel	14 Hydref 2021
Refeniw		
Taliadau Hunanyngysu	Dim Categori	
Grantiau Cefnogi Busnes Llywodraeth Cymru (2021-22)	Uchel	14 Hydref 2021
ECONOMI A CHYMUNED		
Adfywio Cymunedol		

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Cronfa Degwm	Uchel	14 Hydref 2021
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau Amgueddfa Lloyd George	Uchel	10 Chwefror 2022
Cefnogi Busnes Grant Dewisol Cyfyngiadau Clo	Uchel	10 Chwefror 2022
TAI AC EIDDO		
Digartrefedd a Tai Cefnogol Grant Cymorth Tai	Uchel	14 Hydref 2021
Tir ac Eiddo'r Cyngor Trefniadau Glanhau	Cyfyngedig	14 Hydref 2021
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD		
Ar draws yr adran Trefniadau Rheoli Prosiectau	Digonol	10 Chwefror 2022

Crynodeb o nifer yr adroddiadau ym mhob lefel sicrwydd, Cynllun 2021/2022:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	14
Digonol	4
Cyfyngedig	5
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	7
Cyfanswm	30

Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

2020/21		2021/2022
2,019	Cyfanswm Dyddiau	2,077
231	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynyddol	271
56	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol	67
287	<i>Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)</i>	338
1,732	Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael	1,740
	<i>Llai:</i>	
14	Gwyliau Arbennig	20
135	Salwch	70
39	Cyfnod Mamolaeth	0
78	Hyfforddiant Proffesiynol	25
41	Hyfforddiant Swydd	51
1,425	Dyddiau ar gael	1,574
	<i>Llai Amser Di-gynnyrch:</i>	
9	Apwyntiadau Meddygol	15
28	Cofnodi a Rheoli Amser	30
88	Cyfarfodydd a Phwyllgorau	132
0	Cyflwyno Hyfforddiant	1
51	Gwaith Cefndirol	45
23	Gweinyddiaeth ayb.	29
14	Prosiect iGwynedd	4
2	Pwyllgor Archwilio	2
108	Rheolaeth Archwilio Mewnol	127
3	Rheoli Absenoldebau	2
14	Trafferthion TG	19
0	Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol	4
0	Cyfarfodydd (WCAG a N&MWAP)	4
1	Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol	3
1,084	Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol	1,159
60	Gwaith APCE	72
119	Cynghorau Tref a Chymuned	118
40	Byw'n Iach Cyf.	42
248	Cyfoeth Naturiol Cymru (Secondiad)	131
60	Cyngor Tref Ffestiniog	13
557	Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd	783

Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

2020/21		2021/22
510	Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol	711
1	Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol	12
10	Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol	0
24	Cynghori	36
1	Gwaith dilyniant	0
11	Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig	25
557		783

Atodiad 3

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
01	1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol	A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio?	Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf.	Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	31/03/2018	Nid yw'r cynllun gwerthuso 360-gradd wedi ei ddatblygu hyd yma ond bellach, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid.
02	1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol	Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG).	Rheolwr Archwilio	31/12/2017	Mae'r asesiad allanol bellach wedi ei gwblhau gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr.
03	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd?	Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.	Rheolwr Archwilio	08/02/2018	Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 17 Hydref 2019.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
04	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf?	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol.
05	1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant	A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau?	Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Mae hyn wedi ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio.
06	1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth	A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd?	Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol.	Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg	Fel yr angen	Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol.

RHIF GWEITHRED	SAFON PSIAS	CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON	GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG	CYFRIFOLDEB	AMSERLEN WREIDDIOL	CYNNYDD
07	2450 – barn Gyffredinol	A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys: a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau? b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant.	Rheolwr Archwilio	10/05/2018	Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol – caiff hyn ei wneud yn flynyddol.